# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Vaughan Hughes (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Derlwyn Hughes, Victor Hughes, Richard O Jones, R G Parry, OBE, Dafydd Rhys Thomas |
| **WRTH LAW:** | Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd<br>Swyddog Pwyllgor (SC) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr R Meirion Jones, Dylan Rees, J Arwel Roberts<br>Richard Dew (Aelod Portffolio) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Kenneth P Hughes, Alwyn Rowlands (Aelodau Portffolio) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2014 fel rhai cywir ar yr amod fod enw'r Cynghorydd R O Jones yn cael ei gynnwys ar restr yr Aelodau a oedd yn bresennol.

**3 YMGYNGHORI AR GYLLIDEB 2015/16**

Rhoddwyd sylw i adroddiad a baratowyd gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn cyfeirio at yr Ymgynghoriad ar y Gyllideb a'r Cynigion Drafft ar gyfer Cyllideb 2015/16.

Cyfeiriwyd yn benodol at adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 15 Rhagfyr, 2014, a'r cynigion ynghylch arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Democrataidd y manylwyd arnynt yn Atodiad B. Roedd yr arbedion yn y Gwasanaethau Democrataidd yn ymwneud â gostwng costau argraffu a phostio yn dilyn rhoi i-pads i'r Aelodau a'r arbedion a wnaed yn sgil hynny.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r arbedion a gynigiwyd.**

**4 ADRODDIADAU BLYNYDDOL YR AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad gan Bennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd mewn perthynas ag Adroddiadau Blynyddol yr Aelodau ar gyfer 2014/15.

Cyfeiria’r adroddiad at adolygiad o’r Adroddiadau Blynyddol a baratowyd gan yr Aelodau gan y Gweinidog ar gyfer Gwasanaethau Cyhoeddus lle nodir darlun cymysg o ran nifer yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddwyd ar gyfer 2013/14 ac yn nodi mai dim ond Ynys Môn ac un Awdurdod arall oedd wedi cyhoeddi Adroddiadau Blynyddol ar gyfer y cyfan o’u Haelodau.

Gofynnodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd i’r Aelodau baratoi eu hail adroddiad blynyddol ar gyfer 2014/15 a rhoddwyd i’r Aelodau fersiwn symlach o’r templed. Dywedodd y byddai’r swyddogion yn casglu ynghyd y wybodaeth ystadegol ynghylch presenoldeb ym mhrif bwyllgorau ac is-bwyllgorau’r Cyngor. Byddai’r templed yn cael ei gylchredeg i Aelodau yn ystod mis Mawrth a gofynnir i’r Aelodau gyflwyno adroddiadau drafft erbyn 10 Ebrill, 2015 ac y bydd adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor tua diwedd mis Mehefin.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at bresenoldeb mewn cyfarfodydd a’r anhawster a gaiff rhai Aelodau i fynychu oherwydd amgylchiadau personol. Cytunwyd y byddai Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd yn paratoi troed-nodyn a’r dempled yr adroddiad yn datgan fod presenoldeb Aelodau mewn cyfarfodydd yn dibynnu ar eu hymrwymiadau gwaith.

Cynigiodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y bydd cyfarfodydd yn y dyfodol yn cael eu cynnal ar ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher pryd bynnag y mae hynny’n bosibl ac roedd yr Aelodau’n croesawu hynny fel ffordd ymlaen. Byddai cynigion ynghylch amserlen Pwyllgorau 2015/16 yn cael eu cyflwyno i’r Cyngor ym mis Chwefror 2015.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**5 CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU – DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS I GYNGHORWYR: 2015**

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod CLlLC wedi paratoi canllawiau ar fframwaith cymhwysedd drafft i gefnogi Aelodau yn eu gwaith. Mae’r fframwaith yn disgrifio’r sgiliau a’r wybodaeth sydd eu hangen ar Aelodau etholedig ynghyd â’u cyfrifoldebau a bwriedir iddynt ei ddefnyddio pan yn ystyried eu hanghenion o ran datblygiad proffesiynol neu wrth adolygu eu perfformiad.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd fod CLlLC wedi gofyn am atborth gan yr Aelodau ar y fframwaith cymhwysedd drafft a chyfeiriodd at yr atodiad i’r adroddiad sy’n cyfeirio at y cymwyseddau generig sydd eu hangen ar gyfer rôl Aelodau; agweddau Aelodau tuag at arweinyddiaeth; swyddogaeth pwyllgorau sgriwtini ac ati.

Dywedodd Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Democrataidd y bydd gan yr Aelodau’r cyfle i gyflwyno sylwadau ar y fframwaith drafft ac i’w ddiwygio erbyn 4 Mawrth, 2015. Cafwyd gwybodaeth gefndirol yn y fframwaith i gynorthwyo’r Aelodau’r gyda’r broses o baratoi Adolygiadau Datblygiad Personol sy’n mynd

rhagddi ar hyn o bryd gyda hynny’n darparu gwybodaeth ar gyfer y cynllun anghenion hyfforddiant am 2015/16.

**PENDERFYNWYD derbyn y fframwaith cymhwysedd a baratowyd gan CLlLC.**

Ar ddiwedd y cyfarfod, dywedodd y Cadeirydd fod Sarah Titcombe o CLlLC wedi bod mewn damwain car yn ddiweddar. Roedd aelodau’r Pwyllgor yn dymuno mynegi iddi eu dymuniadau gorau am adferiad iechyd llwyr a buan.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.45 pm

**Y CYNGHORYDD VAUGHAN HUGHES**
**CADEIRYDD**